Carcharorion - llythyron

Os ydych yn y carchar, mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau. Mae'r daflen ffeithiau hon ar gyfer carcharorion, eu teuluoedd a'u ffrindiau ac mae'n trafod cadw mewn cysylltiad drwy lythyr.

Anfon llythyron

Os ydych yn y carchar, gallwch fel arfer ysgrifennu llythyr at unrhyw un, cyn belled â bod yr hyn yr ydych yn ei ysgrifennu yn dilyn canllawiau'r carchar. Fodd bynnag, bydd angen caniatâd rheolwr y carchar arnoch i ysgrifennu at rai pobl. Er enghraifft, bydd angen caniatâd y rheolwr arnoch chi cyn:

- hysbysebu'n gyhoeddus am ffrind gohebol
- ysgrifennu at y person yr oeddech wedi cyflawni trosedd yn ei erbyn neu ei deulu
- ysgrifennu at garcharor arall mewn carchar arall. Fodd bynnag, mae yna eithriadau i'r rheol hon.

Mae yna reolau sy'n cyfyngu ar yr hyn allwch ei roi mewn llythyr. Er enghraifft, gall y rheolwr stopio llythyr os:

- caiff ei ystyried yn fygythiad i ddiogelwch
- byddai'n achosi poen neu bryder i'r person fydd yn derbyn y llythyr
- nad oes modd ei ddeall yn hawdd, er enghraifft, oherwydd fe'i hysgrifennwyd mewn cod.

Mae rheolau arbennig hefyd yn berthnasol os ydych yn ysgrifennu at y cyfryngau, er enghraifft, rhaglen radio neu deledu.

Byddwch yn cael gwybod os yw eich llythyr yn cael ei stopio.

Os nad ydych mewn carchar agored, ni ddylech selio eich llythyron cyn eu rhoi yn yr ystafell bost. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad ydych mewn carchar agored, gallwch eu selio os ydynt yn gyfrinachol, neu lythyron i'ch ymgynghorydd cyfreithiol neu'r llys (gweler isod).

Caiff llythyron rhai carcharorion eu darllen cyn iddynt gael eu hanfon, er enghraifft, os ydych mewn carchar diogelwch uchel neu garcharor Categori A. Gall y rheolwr hefyd orchymyn bod eich llythyron yn cael eu darllen cyn iddynt gael eu hanfon os yw'n meddwl y gallai stopio trosedd rhag digwydd neu helpu i ddatgelu trosedd. Caiff rhai llythyron eu darllen ar hap. Gallwch gwyno os ydych yn meddwl bod eich llythyron yn cael eu darllen heb reswm.

Faint o lythyron y gallwch eu hanfon

Os ydych ar remand, hynny yw, dydych chi ddim wedi cael eich dyfarnu'n euog eto, gallwch anfon dau lythyr yr wythnos a fydd cael eu talu gan y carchar. Os ydych yn garcharor a ddyfarnwyd yn euog, gallwch anfon un llythyr yr wythnos a fydd yn cael ei dalu gan y carchar. Mae'n bosib y gallwch anfon mwy o lythyron os ydych yn talu eich hun ond weithiau gall y carchar wahardd y fraint hon. Mae'r carchar yn gallu

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

talu am lythyron arbennig os nad oes gennych ddigon o arian i anfon llythyr pwysig.

Derbyn llythyron

Yn gyffredinol, gallwch dderbyn llythyron wrth unrhyw un. Caiff pob llythyr sy'n cyrraedd y carchar eu hagor er mwyn gwirio i weld os ydynt yn cynnwys rhywbeth na ddylent. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw llythyr cyfreithiol neu gyfrinachol. Ni ellir agor y llythyron hyn heblaw bod yna resymau arbennig iawn. Bydd rhai llythyron yn cael eu darllen yn drylwyr, megis llythyron i garcharorion Categori A. Teflir cipolwg ar lythyron eraill.

Faint o lythyron y gall carcharor eu derbyn

Fel arfer, rydych yn cael derbyn cymaint o lythyron â'r nifer y mae hawl gennych i'w anfon. Fodd bynnag, mewn rhai carchardai lle mae llythyron yn cael eu darllen yn rheolaidd, mae nifer y llythyron y gallwch eu hanfon yn gyfyngedig.

Llythyron cyfrinachol

Mae llythyron i ymgynghorwyr cyfreithiol, y llys a rhai pobl a sefydliadau eraill, ynghyd â llythyron oddi wrthynt, yn gyfrinachol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- swyddfa Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf
- y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- eich AS
- mewn rhai achosion, eich meddyg teulu neu arbenigwr meddygol
- y Samariaid
- y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Nid yw llythyron i'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn gyfrinachol heblaw eich bod yn ysgrifennu at eich ymgynghorydd cyfreithiol a'i fod yn gweithio i CAB. Dylech ysgrifennu 'Prison Rule 39' neu 'Legal Correspondence' ar lythyron cyfrinachol i'ch ymgynghorydd cyfreithiol neu'r llys. Dylech ysgrifennu 'Confidential Access' ar lythyron cyfrinachol eraill.

Fel arfer, ni chaiff llythyron cyfrinachol eu hagor na'u darllen. Fodd bynnag, gallant gael eu hagor a'u darllen os yw'r rheolwr yn credu:

- eu bod yn cynnwys rhywbeth na ddylent, neu
- eu bod yn cynnwys rhywbeth a allai beryglu diogelwch y carchar.

Rydych yn cael bod yn bresennol pan gaiff eich llythyron cyfrinachol eu hagor.

Cwyno am lythyron

Os ydych wedi ysgrifennu at garcharor ac nid yw'r llythyron yn ei gyrraedd, gallwch geisio datrys y broblem drwy gysylltu â'r carchar. Os ydych yn garcharor a hoffech gwyno am lythyron, defnyddiwch y weithdrefn gwyno arferol. Mae yn erbyn y gyfraith i'ch trin yn annheg, er enghraifft, oherwydd eich hil neu darddiad ethnig neu oherwydd eich bod yn anabl. Gelwir hyn yn gwahaniaethu. Os oes gennych broblem gyda llythyron oherwydd gwahaniaethu, sicrhewch eich bod yn sôn am hyn yn eich cwyn.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cynghori yn y carchar. Os ydych yn y carchar, dylech wirio i weld os ydynt yn rhedeg y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn cynnal y sesiynau hyn, ysgrifennwch at eich CAB lleol ac esboniwch eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar a hoffech ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion – galwadau ffôn
- Carcharorion – cael cyngor ychwanegol
- Carcharorion – cwyno
- Gwahaniaethu yn y carchar

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 13 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr